

## Syr RHYS ap THOMAS (1449 - 1525), prif gynorthwywr Cymreig y brenin Harri VII

**Enw:** Rhys ap Thomas  
**Dyddiad geni:** 1449  
**Dyddiad marw:** 1525  
**Priod:** Joan Mathew  
**Priod:** Eva ferch Henri ap Gwilym  
**Plentyn:** Gruffudd ap Rhys  
**Rhiant:** Elizabeth ferch Syr John Gruffydd  
**Rhiant:** Thomas ap Gruffudd ap Nicolas  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** prif gynorthwywr Cymreig y brenin Harri VII  
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol  
**Awdur:** James Frederick Rees

trydydd mab Thomas ap Gruffydd ap Nicholas. Cymerasai ei daid, [Gruffudd ap Nicholas](#), brydles yn 1440 ar arglwyddiaeth Dinefwr a thrwy hynny gosododd sylfaen ffortiwn y teulu. Yr oedd ei dad, Thomas ap Gruffydd, wedi cryfhau safle'r teulu trwy briodi Elizabeth merch ac aeres Syr John Gruffydd, Abermarlais, a allai hawlio ei fod yn ddisgynnydd y tywysogion Cymreig. Yn fachgen ieuanc treuliasai Rhys ap Thomas beth amser gyda'i dad yn llys Bwrgwyn, gan ddychwelyd c. 1467. Pan fu farw ei dad etifeddodd Rhys y stad gan fod ei ddau frawd h'n nag ef wedi marw o flaen eu tad. Pleidiod teulu Lancaster oedd y traddodiad yn y teulu eithr yn wyneb amgylchiadau'r amseroedd hynny yr oedd rhaid wrth wylidwriaeth a gofal. Yn ystod teyrnasiad Edward IV cododd Rhys lu milwrol lleol i gynorthwyo'r brenin, eithr wedi i Richard III esgyn i'r orsedd aeth i gyswllt â [Harri Tudur](#) a oedd y pryd hwnnw yn alltud yn Llydaw. Nid oes ddadl, y mae'n debyg, na fu iddo addo cynorthwyo [Harri](#) ac iddo, pan laniodd hwnnw yn Aberdaugleddau ddefnyddio ei ddylanwad lleol cryf o blaid [Harri](#) - y mae'n rhaid ystyried mai dychymyg ydyw'r stori i Rhys esmwythau ei gydwybod trwy adael i [Harri](#) groesi dros ei gorff tra cwrcydiai yntau o dan bont Mullock yn ymyl Dale. Ymunodd â llu [Harri](#) yn ymyl y Trallwng a chydag ef w'r arfog a godasai yn nyffryn Tywi a gwnaethpwyd ef yn farchog am ei wasanaeth ar faes brwydr Bosworth (22 Awst 1485). Ym mis Tachwedd yr un flwyddyn derbyniodd arwyddion eraill o ffafr y brenin. Rhoddwyd iddo swydd cwnstabl a stiward arglwyddiaeth Brycheiniog, siambrlen siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, a stiward arglwyddiaeth Buellt; efe, felly, a ddaliai'r prif swyddi yn Ne Cymru y gellid dewis gw'r iddynt gan y brenin yn unig. Parhaodd Syr Rhys yn flaenllaw o blaid y frenhiniaeth newydd. Yr oedd yn bennaeth llu o w'r meirch ym mrwydr Stoke (16 Mehefin 1487) pan orchfygwyd Lambert Simnel yr ymhonnwr ac y cymerwyd ef yn garcharor; cymerodd ran hefyd yr ymgyrch yn erbyn Boulogne (mis Hydref 1492). Ym mrwydr Blackheath (17 Mehefin 1497) cymerodd yr arweinydd, Lord Audeley, yn garcharor, a gwnaethpwyd Syr Rhys yn 'knight-banneret.' Yr oedd yn bresennol pan roes Perkin Warbeck ei hunan i fyny yn Beaulieu Abbey ym mis Medi 1497. Am y gwasnaethau hyn (a rhai eraill) fe'i gwnaethpwyd yn K.G. - Marchog o Urdd y Gardys - ar 22 Ebrill 1505. Parhaodd i fwynhau'r ffafr brenhinol wedi i Harri VIII esgyn i'r orsedd a chymerth ran yn ymgyrch y brenin hwnnw i Ffrainc yn 1513. Treuliodd ei flynyddoedd diwethaf

yng nghastell Carew a roesai'r perchennog yn gyfnewid am fenthylg arian ar yr eiddo. Yn y castell hwnnw cynhaliodd Syr Rhys dwrnameint mawr i ddatlu ei ethol yn K.G.; gwahoddodd i'r twrnameint gynrychiolwyr o brif deuluoedd uchelwyr ym mhob rhan o Gymru. Gwnaeth gyfnewidiadau mawr yn y castell - adeiladu adeilad y porth a doddi ffenestri yn y castell.

Priododd Syr Rhys ap Thomas (1) Eva, merch Henri ap Gwilym, Cwrt Henri, a (2) Jane, merch [Thomas Mathew](#), Radyr, Morgannwg, a gweddw [Thomas Stradling](#), S. Dunawd, Morgannwg. Bu farw yn 1525 a chladdwyd ef yn eglwys y Brodyr Llwydion, Caerfyrddin. Symudwyd ei gorff yn ddiweddarach i eglwys S. Pedr yn yr un dref; adnewyddwyd y beddfaen yn 1865. Bu ei weddw farw yn 1535 yng nghastell Pictwn a chladdwyd hithau yn eglwys y Brodyr Llwydion. Aeth ei stadau, eithr nid ei swyddi, i'w yr, [Syr Rhys ap Gruffydd](#), eithr fforfediodd hwnnw hwynt i'r Goron (a cholli ei fywyd hefyd) yn 1531 pan ddygwyd cyngaws o gynllwyn yn ei erbyn (gweler dan '[Rice](#)').

## Awdur

Syr James Frederick Rees, (1883 - 1967)

## Ffynonellau

Y mae llawer o gyfeiriadau at Syr Rhys ap Thomas yng nghronicleu cyfnod y Tuduriaid ac yn Francis Bacon, *Bacon's history of the reign of King Henry VII with notes* (Caergrawnt 1888)

Y mae bywgraffiad manwl a ysgrifennwyd yn y 17eg ganrif yn argraffedig yn *Cambrian Register* (1795–1818), 1796, i, a cheir dyfyniadau meithion o hwnnw yn Richard Fenton, *A Historical Tour through Pembrokeshire* (London 1811), 1811 ni wyddys pwy oedd awdur y bywgraffiad hwn (ond [gweler yr ysgrif 'Rice, teulu'](#)), a dylid bod yn ofalus wrth ei ddefnyddio

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Rhys ap Thomas](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [22029118](#)

Wikidata: [Q7321859](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

